

## **Arolygiad Dilynol (Dirybudd)**

Adran Achosion Brys Ysbyty Maelor Wreccsam,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 06 a 07 Awst 2019

Dyddiad cyhoeddi: 7 Tachwedd 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

|    |  |                                     |
|----|--|-------------------------------------|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....  | 5                                   |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad .....  | 6                                   |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym.....  | 7                                   |
|    | Ansawdd profiad y claf .....   | 8                                   |
|    | Darparu gofal diogel ac effeithiol .....                                   | 15                                  |
|    | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....                                   | 27                                  |
| 4. | Beth nesaf? .....  | 34                                  |
| 5. | Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol .....                              | 35                                  |
|    | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad | 36                                  |
|    | Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....                               | 37                                  |
|    | Atodiad C – Cynllun gwella.....  | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i dylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol, dirybudd o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 06 a 07 Awst 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o arolygwyr AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno rhai o'r gwelliannau a restrwyd yn y cynllun gweithredu a luniwyd ar ôl yr arolygiad diwethaf o'r adran ac wedi parhau i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd angen gwella rhai meysydd o hyd a chyfeirir at y rhain yn fanylach yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Ymgysylltu â'r staff
- Gwybodaeth i gleifion
- Adran bediatrig ddynodedig
- Llywodraethu gan reolwyr yr adran a pha mor weladwy ydynt

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Amseroedd aros a llif y cleifion
- Goruchwyliaeth o gleifion yn y coridor
- Rheoli meddyginiaeth
- Mannau storio yn yr Uned Asesu Meddygol a'r Uned Penderfyniadau Clinigol
- Uwchraddio'r gawod yn yr Uned Asesu Meddygol
- Dogfennaeth ac asesiadau gofal
- Matresi lleddfu pwysau ar droliâu
- Rhai agweddau ar hyfforddiant staff
- Recriwtio staff.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Ysbyty Maelor Wrecsam yw'r ysbyty cyffredinol dosbarth ar gyfer ardal ganolog Gogledd Cymru. Fe'i hatorwyd yn wreiddiol yn y 19eg ganrif ond fe'i hailadeiladwyd yn 1986. Mae'r ysbyty yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 195,000 ac mae ganddo tua 603 o welyau (17-18, StatsCymru), gydag ystod lawn o arbenigeddau.

Caiff Ysbyty Maelor Wrecsam ei redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu ystod lawn o wasanaethau ysbyty sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac aciwt i boblogaeth o tua 678,000 o bobl yn y chwe sir yng ngogledd Cymru, yn ogystal â rhai rhannau o ganolbarth Cymru, Swydd Gaer a Sir Amwythig. Mae ganddo gyllideb ddyranedig o £1.3 biliwn a gweithlu o oddeutu 16,500 ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Arolygodd AGIC yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam ddiwethaf ar 05 Rhagfyr 2017. Nodir y sicrwydd uniongyrchol a roddwyd yn union ar ôl yr arolygiad blaenorol, a'r meysydd i'w gwella y tynnwyd sylw atynt, ynghyd ag ymatebion y bwrdd iechyd, yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Mynegodd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd.

Gwelsom rhyngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn dangos parch wrth gefnogi'r cleifion, ac yn diogelu eu hurddas.

Roedd y staff yn yr adran yn cydweithio'n dda â'i gilydd a chydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol er mwyn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu. Fodd bynnag, mynegodd cleifion bryderon ynglŷn ag amseroedd aros.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr adran, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwyr yr adran.

## Gofal ag urddas

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm staff.

Gwelsom rhyngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd gochelgar a phroffesiynol. Soniodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y ffordd roedd y staff yn ymgymryd â'u dyletswyddau.

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig ac yn barchus tuag at y cleifion. Gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol. Er enghraifft, roedd llenni yn cael eu defnyddio o amgylch ardal gwely/triniaeth pan oedd gofal yn cael ei roi. Fodd bynnag, gwelsom fod hyd at chwe chlaf yn cael gofal ar droliâu ym mhrif goridor yr Adran Achosion Brys. Er bod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion, roedd yr ardal hon yn brysur iawn ac nid oedd yn lle addas i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig a'u bod wedi cael y gofal roedd ei angen arnynt. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:



*“Cefais fy nhrin â pharch gan bawb.”*

Roedd yr amgylchedd yn yr adran yn lân ac yn daclus, gan ychwanegu at ymdeimlad y cleifion o les.

### **Cadw'n iach**

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain cymaint â phosibl. Pan oedd y cleifion yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, oherwydd eu cyflyrau corfforol/meddyliol neu broblemau gyda'r cof, gwelsom fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i helpu i wneud penderfyniadau ynghylch cynllunio triniaeth a'r gofal a ddarperid yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd tawel, gochelgar a phroffesiynol.

Roedd y Cynllun Pili Pala<sup>1</sup> ar waith yn yr adran, lle roedd symbolau pili-palod yn cael eu defnyddio er mwyn adnabod cleifion â diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt neu ddull gwahanol o ddarparu gofal. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cynllun yn cael ei ddefnyddio'n gyson.

#### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod Cynllun Pili Pala yn cael ei roi ar waith yn gyson yn yr adran.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

---

<sup>1</sup> Nod Cynllun Pili Pala yw gwella diogelwch a llesiant cleifion drwy addysgu'r staff i ymateb i'r bobl â nam ar y cof mewn ffordd gadarnhaol a phriodol, ac mae'n galluogi'r cleifion hynny sy'n dioddef o ddementia, dryswch neu anghofrwydd i ofyn am yr ymateb hwnnw drwy ddefnyddio symbol pili pala disylw yn eu nodiadau.

- Gwerthuso a gwella dulliau effeithiol o roi gwybod am amseroedd aros i gleifion
- Gwella adnoddau gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros
- Gwerthuso taflenni sy'n cael eu defnyddio o fewn y bwrdd iechyd, er mwyn sicrhau y caiff adnoddau GIG Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru eu defnyddio fel prif ffynhonnell pryd bynnag y bônt ar gael
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wella a datblygu'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael, a sicrhau y rhoddir yr un sylw i'r Gymraeg ag a roddir i'r Saesneg.

Ymrwymodd y bwrdd iechyd i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

- Cyfarfu'r Pennaeth Nyrsio ar gyfer Meddygaeth â Metron yr Adran Achosion Brys ar 20 Rhagfyr 2018
- Mae'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion ar hyn o bryd wedi'i gwerthuso
- Cyfarfod â Metron yr Adran Achosion Brys ar 17 Ionawr 2018, a threfniadau i'w gwneud ar gyfer cyfieithu pob poster Gwybodaeth i'r Gymraeg
- Mae Sgriniau sy'n dangos Gwybodaeth am Amseroedd Aros Ymwelwyr bellach wedi'u harchebu
- Dirprwy Reolwr Cyffredinol yr Adran ar gyfer Meddygaeth ar y cyd ag aelod Band 6 o staff yr Adran Achosion Brys i gynnal arolwg cleifion er mwyn nodi pa wybodaeth yr hoffai cleifion ei gweld ar y system.

Yn ystod yr arolygiad hwn gwelsom fod y cleifion yn cael eu hysbysu am amseroedd aros drwy ysgrifennu'r wybodaeth â llaw ar fwrdd yn ardal aros y brif dderbynfa. Nid oedd y wybodaeth ar y bwrdd hwn yn cael ei diweddarau'n rheolaidd ac nid oedd yn adlewyrchu amseroedd aros yn gywir.

Nodwyd gennym fod y trefniadau cyffredinol ar gyfer darparu gwybodaeth i'r cleifion yn yr adran wedi gwella, gyda hysbysfyrddau yn cael eu gosod mewn mannau amlwg yn yr adran er mwyn arddangos canlyniadau archwiliadau. Fodd bynnag, roedd angen rhagor o waith i wella'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth yn yr ardal aros a gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod amseroedd aros yn cael eu cyfleu'n gywir
- Bod gwybodaeth yn cael ei darparu i gleifion drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd digynnwrf ac urddasol.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi gallu defnyddio ei ddewis iaith a chytunodd fod y staff bob amser yn gwrtais, iddo ef ac i'w ffrindiau a'i deulu.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion wrthym eu bod yn cael eu drysu gan y defnydd o fyrfoddau, gan aelodau o'r staff, i ddisgrifio'r gwahanol ardaloedd yn yr adran. Felly, gwnaethom argymhell y dylid annog y staff i beidio â defnyddio byrfoddau wrth siarad â'r cleifion ac ymwelwyr.

Dywedodd rhai cleifion wrthym eu bod wedi cyrraedd yr adran mewn ambiwlans. Dywedodd pob un o'r cleifion hynny a gyrhaeddodd mewn ambiwlans fod y criw wedi rhoi tawelwch meddwl iddynt a'u trin â pharch. Dywedodd pob un ohonynt fod y criw wedi esbonio beth oedd yn digwydd a'u helpu i ddeall.

Dywedodd bron pob un o'r cleifion wrthym fod y staff yn eu cyfarch gan ddefnyddio eu henw dewisol.

Roedd system dolen sain ar gael i bobl â phroblemau clyw.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd annog y staff i beidio â defnyddio byrfoddau wrth siarad â'r cleifion ac ymwelwyr.

### Gofal amserol

Roedd y staff yn gweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd aml-ddisgyblaethol er mwyn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu.

Fodd bynnag, mynegodd y cleifion bryderon ynglŷn â'r amseroedd aros. Dywedodd tua hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi bod yn aros am lai na phedair awr. Dywedodd un o bob pump eu bod wedi bod yn aros rhwng pedair ac wyth awr, ac ychydig o gleifion a ddywedodd eu bod wedi bod yn aros am fwy nag wyth awr. Rhai o'r sylwadau oedd:

*“Mae aros am dair awr i'r weld yn amser hir.”*

*“Mae amseroedd aros yn rhy brysur. Cyfathrebu gwael.”*

*“Ddydd Sadwrn diwethaf cefais fy ngadael yn pesychu gwaed yn yr ystafell aros am saith awr.”*

Roedd yr adran yn brysur iawn ar ddau ddiwrnod yr arolygiad, gyda'r cleifion yn gorfod aros cryn dipyn o amser i gael eu derbyn i'r wardiau priodol yn yr ysbyty. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff yn gofalu am bob un o'r cleifion a oedd yn aros i gael eu derbyn i'r ysbyty ac yn eu trin mewn modd proffesiynol. Ar ddiwrnod ein hymweliad ni welsom unrhyw achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys i'r adran.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro amseroedd aros a rhoi strategaethau eraill ar waith i wella llif cleifion drwy'r adran.

### Gofal unigol

#### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod prosesau cynllunio gofal da ar y cyfan ar waith a oedd yn ystyried safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal. Roedd cynlluniau gofal yn gyffredinol o ran eu fformat ac mae angen gwneud mwy i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Drwy ein sgysiau â'r staff a'n harsylwadau, cadarnhawyd gennym fod y cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal.

Yn gyffredinol, roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau i safon foddhaol ac, ar y cyfan, roeddent yn glir ac yn gryno. Roedd y ffeiliau gofal yn daclus ac yn hawdd eu defnyddio.

Roedd gwybodaeth gyfredol berthnasol ar gael ym mhob rhan o'r adran am bwysigrwydd adnabod sepsis yn gynnar<sup>2</sup>.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod asesiad o Alluedd Meddyliol ac asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid<sup>3</sup> yn cael eu cynnal ar y cleifion a oedd wedi cael diagnosis o anghenion iechyd meddwl. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau o'r fath yn cael eu cynnal ar gyfer y cleifion a oedd â chyflyrau eraill, megis dementia, anaf i'r pen neu ddrysu'n gyffredinol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau DoLS yn cael eu cynnal ar gleifion sydd â symptomau cyflyrau megis dementia, anaf i'r pen neu ddrysu'n gyffredinol, fel mater o drefn.

### Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y maes canlynol i'w wella:

---

<sup>2</sup> Cyflwr peryglus iawn yw sepsis sy'n digwydd pan fo adwaith y corff i haint yn peri anaf i feinwe ac organau'r corff.

<sup>3</sup> Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n fodd cyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er ei fudd pennaf ac os mai hon yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r person yn ddiogel rhag niwed.

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bob claf am broses GIG Cymru ar gyfer codi pryder/gwneud cwyn, sef Gweithio i Wella<sup>4</sup>.

Ymrwymodd y bwrdd iechyd i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

- Mae ciosg adborth cleifion ar gael wrth fynedfa/allanfa'r Adran Achosion Brys
- Mae pum poster gwybodaeth Gweithio i Wella wedi'u gosod o amgylch yr adran
- Mae taflenni gwybodaeth Gweithio i Wella wedi'u darparu i'r Adran Achosion Brys yn Gymraeg a Saesneg ac mae gwybodaeth am sut i wneud cwyn i'r bwrdd iechyd wedi'i chasglu ynghyd ac mae'n cael ei chyfieithu i'r Gymraeg ar hyn o bryd.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod gwybodaeth Gweithio i Wella ar gael yn yr adran. At hynny, cafodd y cleifion a'u cynrychiolwyr gyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd, drwy drafodaethau wyneb yn wyneb â'r staff. Roedd systemau da ar waith i reoli cwynion a dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a ddaeth i law am y gwasanaeth yn isel.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â Gweithio i Wella.

---

<sup>4</sup> Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Nodwyd gennym fod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ffurfiol ar waith. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwella rhai agweddau ar reoli meddyginiaethau.

Nodwyd gennym risgiau posibl i ddiogelwch cleifion, a oedd yn ymwneud â gofalu am gleifion a oedd yn aros ar droliau yn y coridor.

### Gofal diogel

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y maes canlynol i'w wella:

- Y bwrdd iechyd i roi cynllun gweithredu i AGIC, sy'n nodi sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r arfer presennol, lle mae cleifion yn gorfod aros ar gadeiriau y tu allan i'r Uned Penderfyniadau Clinigol i gael gofal a thriniaeth, pan nad oes gwelyau ar gael
- Y bwrdd iechyd i roi protocolau safonedig ar waith ar bob safle priodol, mewn perthynas â'r dull cyson a safonedig o asesu cleifion na ellir eu dadlwytho o ambiwlansys, am nad oes gwelyau ar gael yn yr ysbytai, a gofalu amdanynt
- Y bwrdd iechyd i werthuso'r systemau presennol ar gyfer atgyfeirio cleifion at y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau a chymryd camau yn ôl yr angen i hyrwyddo asesu cleifion eraill yn amserol ar y cam brysbennu.

Ymrwymodd y bwrdd iechyd i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

- Llunio achos busnes drafft mewn perthynas â chreu lle i dderbyniadau meddygon teulu yn yr Uned Asesu Meddygol
- Sicrhau bod dogfen y Broses Gweithredu Uwchgyfeirio Leol (LEAP) a ddefnyddir ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

yn darparu ar gyfer rhoi cleifion gorlif mewn ardaloedd dal yn ystod cyfnod o bwysau eithriadol

- Cyfarfod wedi'i drefnu – caiff y system a'r broses eu hailddylunio er mwyn sicrhau y bydd staff y gwasanaeth y tu allan i oriau yn casglu ac yn trosglwyddo cleifion i'r ardal briodol
- Caiff cyfarfod misol ei sefydlu rhwng metron yr Adran Achosion Brys a metron y gwasanaeth y tu allan i oriau

Yn ystod yr arolygiad hwn gwelsom fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i leihau nifer y cleifion a oedd yn aros ar gadeiriau y tu allan i'r Uned Penderfyniadau Clinigol. Fodd bynnag, bydd angen monitro hyn er mwyn sicrhau gwelliant pellach. Dylid gwneud hyn fel rhan o'r broses gyffredinol o fonitro llif cleifion drwy'r adran.

Ni thynnwyd ein sylw at unrhyw broblemau parhaus o ran atgyfeiriadau at y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Gwelsom fod cyfathrebu da â chriwiau ambiwlans. Roedd pwyslais ar symud y cleifion oddi ar ambiwlansys i mewn i'r adran mor fuan â phosibl er mwyn rhyddhau'r cerbydau.

Roedd Polisi Uwchgyfeirio ar waith i reoli llif cleifion drwy'r adran a rheoli'r cleifion a oedd yn cael eu trin ar droliâu mewn coridorau. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd cleifion a oedd yn aros ar droliâu yn y coridor yn cael gofal priodol nac amserol. Bu'n rhaid i aelodau o'r tîm arolygu ymyrryd ar dri achlysur gwahanol, gyda gofal y cleifion a oedd yn aros ar droliâu yn y prif goridor yn yr Adran Achosion Brys:

- Bu'n rhaid i ni dynnu sylw'r nyrs a oedd yn gyfrifol am y cleifion yn y coridor yn yr Adran Achosion Brys at glaf a oedd yn dioddef mwy o boen yn y frest
- Bu'n rhaid i ni dynnu sylw'r nyrs a oedd yn gyfrifol am y cleifion yn y coridor yn yr Adran Achosion Brys at glaf a oedd wedi gwlychu ei hun. At hynny, roedd y claf dan sylw wedi cael ei drafod yn y cyfarfod llif cleifion am 1.00pm ac roedd disgwyl iddo gael ei ryddhau Fodd bynnag, ar ôl cael ei archwilio ymhellach gan feddygon yn yr Adran Achosion Brys, canfuwyd bod gan y claf haint yn y llwybr wrinol a'i fod yn ddadhydredig Symudwyd y claf wedi hynny i'r Uned Asesu Meddygol i gael triniaeth ac ni chafodd ei ryddhau
- Gwelsom y nyrs a oedd yn gyfrifol am y cleifion yn y coridor yn yr Adran Achosion Brys yn arsylwi ar glaf. Nid oedd y nyrs yn defnyddio



amserydd wrth gyfrif anadliadau'r claf. Gwnaethom edrych ar gofnodion y claf a gweld bod y nyrs wedi dogfennu cyfradd anadlu ar gyfer y claf, a allai fod wedi bod yn anghywir felly

- Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym nad oedd unrhyw fatresi lleddfu pwysau ar gael i unrhyw gleifion, a oedd yn aros ar droliâu yn yr Adran Achosion Brys
- Gwelsom fod y defnydd o fandiau adnabod cleifion yn anghyson. Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gwelsom gleifion a oedd yn cael archwiliadau diagnostig a thriniaeth nad oeddent yn gwisgo bandiau arddwrn adnabod cleifion. Uwchgyfeiriwyd y mater hwn at reolwr y sifft a atgoffodd y staff fod angen sicrhau bod pob claf o'r fath yn cael band arddwrn a'i fod yn ei wisgo. Fodd bynnag, yn ystod ail ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom glaf a oedd yn cael trwythiad mewnwythiennol nad oedd yn gwisgo band arddwrn adnabod cleifion.

Yn ein barn ni, nid oedd yr arferion uchod yn ddiogel ac roeddent yn cynyddu'r risg o niwed i'r cleifion. O ganlyniad, rhoddwyd sicrwydd uniongyrchol i'r bwrdd iechyd. Golygai hyn ein bod wedi ysgrifennu i'r bwrdd iechyd ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol bod camau unioni brys yn cael eu cymryd. Ceir manylion y cynllun gwella uniongyrchol yn Atodiad B.

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Mae angen trwsio seston sy'n gollwng.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

- Rhoddodd Metron yr Adran Achosion Brys wybod am y diffyg i'r Adran Ystadau ym mis Rhagfyr/Ionawr 2018 (gwaith atgyweirio adferol). Mae'r seston yn gweithio ond mae'r diffyg wedi ailgodi ac mae'r Adran Ystadau yn asesu'r sefyllfa gyda golwg ar osod seston newydd yn lle'r un presennol.
- Mae'r Adolygiad o'r Weithdrefn Glanhau Cadeiriau Olwyn Porthorion wedi'i gynnal. Proses Diwygio'r Weithdrefn i'w chwblhau erbyn 31 Ionawr 2018, a fydd yn cynnwys:
  - Edrych i weld a yw cadeiriau wedi'u difrodi
  - Rhoi'r gorau i'w defnyddio ar unwaith

- Labelu cadeiriau â 'peidiwch â defnyddio' a nodi'r difrod
- Ble i'w storio
- I bwy y dylid rhoi gwybod am ddifrod

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod archwiliadau amgylcheddol cyffredinol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion a'r staff. Roedd adroddiadau ffurfiol ar y rhain yn cael eu cyflwyno i uwch-reolwyr a'u harddangos yn yr adran er mwyn i'r cleifion a'r ymwelwyr eu gweld. Fodd bynnag, gwelsom fod diffyg lle storio yn yr Uned Asesu Meddygol. Roedd cadeiriau olwyn a chomodau yn cael eu storio o flaen yr allanfa dân. Tynnwyd sylw'r nyrs a oedd yn gyfrifol am y ward at hyn a chymerodd gamau ar unwaith i symud yr eitemau.

Gwelsom fod problemau gyda'r llawr yn yr ystafell gawod yn yr Uned Asesu Meddygol a oedd yn peri risg o faglu i'r cleifion a'r staff. Rhoddwyd gwybod i ni fod y mater hwn wedi'i drosglwyddo i'r adran cynnal a chadw er mwyn iddi gymryd camau gweithredu. Gwelsom hefyd fod tyllau yng ngorchuddion y waliau yn yr ystafell gawod a ffitiadau cawod wedi torri a oedd yn golygu bod dŵr yn gallu cronni gan gynyddu'r risg o groes-heintio.

Gwelsom hefyd fod rhai eitemau o fwyd, i'w defnyddio gan y cleifion, yn cael eu storio gyda chyfarpar clinigol yn yr Uned Asesu Meddygol a'r Uned Penderfyniadau Clinigol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod yr ystafell gawod yn yr Uned Asesu Meddygol yn cael ei hadnewyddu
- Na chaiff eitemau o fwyd eu storio gyda chyfarpar clinigol yn yr Uned Asesu Meddygol na'r Uned Penderfyniadau Clinigol.

#### Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Gwelsom fod y staff yn yr Uned Asesu Meddygol yn asesu cleifion yn gyson mewn perthynas â'u risg o ddatblygu niwed i'w croen oherwydd briwiau pwysu, a bod matresi lleddfu pwysau addas ar gael ar welyau. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau risg ffurfiol ar gyfer mannau pwysu wedi'u cwblhau ar gyfer rhai o'r

cleifion yn yr ardal anafiadau mawr<sup>5</sup> yn y brif Adran Achosion Brys. At hynny, fel y nodwyd eisoes, nid oedd matresi lleddfu pwysau addas ar gael i'w defnyddio ar droliâu ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn aros mwy na phedair awr am wely.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau risg ar gyfer mannau pwysu eu cynnal fel mater o drefn a bod matresi lleddfu pwysau addas ar gael i'w defnyddio ar droliâu.

#### Atal cwympiadau

O adolygu sampl o ffeiliau gofal unigol, ni welsom fawr ddim tystiolaeth i ddangos bod asesiadau risg yn cael eu cynnal yn amserol er mwyn lleihau'r risg o gwympiadau.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o'r risg o gwympo yn cael eu cynnal yn amserol.

#### Atal a rheoli heintiau

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Dylai pob comôd nodi'r glir ei fod wedi cael ei ddihalogi ar ôl iddo gael ei ddefnyddio
- Dylid gwagio biniau llyeiniau yn amserol
- Dylai pob cadair olwyn sy'n cael ei defnyddio fod yn addas at y diben.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

---

<sup>5</sup> Yr ardal yn yr Adran Achosion Brys lle y gofelir am gleifion ag anafiadau neu anghenion meddygol mwy difrifol.

- Rhoi'r amserlen lanhau ar gyfer monitro'r ystafell olchi gan y swyddog cadw tŷ ar waith bob dydd
- Rhoi Safonau Glanhau newydd a lanswyd ym mis Ionawr 2018 ar waith
- Cyfarfu'r Pennaeth Nyrsio â metron yr Adran Achosion Brys ar 20 Rhagfyr 2017 gan nodi'r disgwyliadau a'r safonau yn glir.

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd gennym fod polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith a gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, roedd hysbysfyrddau wedi cael eu darparu'n ddiweddar er mwyn arddangos canlyniadau archwiliadau rheoli heintiau mewn manau amlwg yn yr adran.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio, ac roeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod manau diheintio'r dwylo wedi eu lleoli'n strategol wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd at ddefnydd y staff a'r ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gwelsom fod angen glanhau rhai rhannau o'r adran. Fodd bynnag, ar ail ddiwrnod yr arolygiad gwelsom fod y sefyllfa wedi gwella.

### Maeth a hydradu

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal a gweld nad oedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu'n gyson ac nad oedd siartiau monitro maeth a hydradu bob amser yn cael eu defnyddio lle roedd angen gwneud hynny. At hynny, prin oedd y dystiolaeth wedi'i dogfennu o'r defnydd o Lwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan<sup>6</sup>.

---

<sup>6</sup> Cyflwynwyd Llywybr Gofal Maethol Cymru Gyfan ar gyfer ysbytai yn 2009. Mae'n nodi manylion y llywybr ar gyfer sgrinio maeth cleifion pan gânt eu derbyn a'r gofal maethol tra byddant yn aros yn yr ysbyty.

Gwelsom y staff yn annog y cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol. Gwelsom hefyd staff y Groes Goch yn helpu'r cleifion i fwyta ac yfed. Gwnaed hyn mewn modd urddasol a phwyllog.

Roedd y prydau bwyd a ddarparwyd i'r cleifion wedi'u cyflwyno'n dda yn ôl y golwg ac yn ymddangos yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion bwyta ac yfed cleifion eu hasesu'n gyson ac y caiff siartiau monitro maeth a hydradu eu cwblhau fel sy'n ofynnol.

### Rheoli meddyginiaethau

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y materion canlynol ynglŷn â Sicrwydd Uniongyrchol:

- Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel yn yr Adran Achosion Brys, ac mewn wardiau ac adrannau eraill ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd
- Rhaid rhoi ystyriaeth i ddilyn Hysbysiad Diogelwch Cleifion:  
PSN 015 / Gorffennaf 2015 Storio meddyginiaethau: Oergelloedd  
PSN 030 / Ebrill 2016 Storio meddyginiaethau yn ddiogel: Cypyrddau

Cadarnhaodd y bwrdd iechyd y canlynol mewn ymateb:

- Mae gan bob un o'r tair adran achosion brys gyfleusterau priodol ar gyfer storio meddyginiaethau ysbyty yn ddiogel
- Atgoffwyd y staff ar unwaith fod yn rhaid rhoi meddyginiaethau'r cleifion eu hunain mewn cwpwrdd dan glo
- Hapwiriad wythnosol i fonitro cydymffurfiaeth am fis arall yn Adran Achosion Brys Maelor Wrecsam
- Atgoffir pob ward/adran drwy sgrymiau diogelwch dyddiol a sesiynau briffio diogelwch ar wardiau ar gyfer yr wythnos ganlynol, o'r gofynion o ran y weithdrefn gywir ar gyfer rheoli meddyginiaeth y cleifion eu hunain

- Mae'r metronau yn cynnal hapwiriadau ar bob ward/adran o fewn 48 awr er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir ac y caiff gofynion gweithdrefnol PSN 15 a PSN 030 eu bodloni.
- Caiff cynllun prosiect i fynd i'r afael â gofynion strwythurol (er enghraifft, goleuadau a thymheredd), a nodwyd yn ystod archwiliadau cynhwysfawr o'r trefniadau storio meddyginiaethau ym mis Hydref a mis Tachwedd ar bob safle, ei gwblhau.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob oergell sy'n cynnwys meddyginiaeth ar bob un o safleoedd y bwrdd iechyd wedi'i chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio'n uniongyrchol gan y staff
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ocsigen ei ragnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion, a'i fewnbynnu i gofnodion rhoi meddyginiaeth y cleifion

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

- Mae oergelloedd â chloeon annatod wedi'u harchebu ar gyfer yr ardal mân anafiadau ac anafiadau mawr
- Yn y cyfamser caiff oergelloedd eu symud i'r ardal dadebru
- Mae'r broses ragnodi yn briodol mewn ardaloedd clinigol – Rhagnodi ocsigen ar Gerdyn CAS (sy'n system briodol) pan benderfynir derbyn y claf i'r ysbyty, caiff y daflen trin cleifion mewnol ei defnyddio ar gyfer cleifion – eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod Llywodraethu'r Adran Achosion Brys ym mis Chwefror 2018
- Mae archwiliad o gydymffurfiaeth â PSN 015 a PSN 030 wrthi'n cael ei gynnal mewn ardaloedd cleifion mewnol gofal eilaidd
- Cynhelir adolygiad wythnosol o'r feddyginiaeth sy'n cael ei storio yn yr adran gan ddefnyddio adnawdd archwilio rheoli a storio meddyginiaethau yn ddiogel a gymeradwyir gan Brifysgol Betsi Cadwaladr
- Caiff adolygiad o gyfleusterau storio meddyginiaeth, gan gynnwys oergelloedd, ei gynnal ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd a chyflwynir safonau newydd.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gadarnhau bod sylw wedi'i roi i'r mwyafrif o'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol.

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi i'r cleifion a'r staff yn mynd ati i roi meddyginiaeth mewn ffordd ddifrys, gan gymryd yr amser i sicrhau bod y cleifion yn gallu cymryd eu meddyginiaeth heb bryderu na mynd yn ofidus. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, gwelsom rai cleifion heb fandiau arddwrn adnabod cleifion. O ganlyniad, rhoddwyd sicrwydd uniongyrchol i'r bwrdd iechyd. Golygai hyn ein bod wedi ysgrifennu i'r bwrdd iechyd ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol bod camau unioni brys yn cael eu cymryd. Ceir manylion y cynllun gwella uniongyrchol yn Atodiad B.

Adolygwyd sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a gwelsom fod y rhain, ar y cyfan, wedi'u cwblhau i safon foddhaol. Fodd bynnag, roedd rhai llofnodion ar goll ar y cofrestrau cyffuriau a reolir a thystiolaeth nad oedd y cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio'n rheolaidd bob dydd.

Fel y gwelwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom fod ocsigen yn cael ei roi i rai cleifion er nad oedd wedi cael ei ragnodi'n ffurfiol.

Roedd fferylllydd ar gael yn yr Adran Achosion Brys rhwng 9.00am a 3.00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, i archwilio'r feddyginiaeth a chynnig arweiniad a chynngor i'r staff.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio'n ddyddiol
- Bod y staff yn llofnodi cofrestrau cyffuriau a reolir ar adeg gwirio a/neu roi meddyginiaeth
- Ac eithrio mewn argyfwng, mai dim ond pan gaiff ei ragnodi'n ffurfiol y rhoddir ocsigen i gleifion.

#### Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Roedd ardal aros a thrin ar wahân i blant â drws bysellbad wrth y fynedfa. Fodd bynnag, gwelsom fod drws yn cael ei gadw ar agor heb unrhyw aelod o'r staff yn bresennol.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drws yr ardal bediatrig wedi'i gloi pan nad oes unrhyw staff yn bresennol.

## Rheoli gwaed

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith ar gyfer rheoli trallwysiadau gwaed a'u bod yn cael eu cefnogi gan bolisiau a phrotocolau ysgrifenedig ffurfiol.

Roedd y staff a oedd yn ymwneud â chyflawni trallwysiadau gwaed wedi cael hyfforddiant yn y broses. Unwaith y bydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau rhoddir mynediad sgan unigryw i'r staff i'r oergell storio gwaed. Caiff yr oergell ei stocio gan staff yr adran batholeg.

## Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff trolïau dadebru brys eu harchwilio bob dydd a bod y staff yn dogfennu hyn yn unol â hynny.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

- Rhoi archwiliad ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac archwilio trolïau yn gywir
- Mae archwiliad wythnosol o brosesau archwilio trolïau dadebru yn yr Adran Achosion Brys wedi dangos gwelliant. Fodd bynnag, ceir anghysondebau ar adegau o ran archwiliadau dyddiol. Parhau i fonitro cydymffurfiaeth yn wythnosol.
- Mae polisi dadebru cardiobwlmonaidd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn nodi pa mor aml y dylid cynnal archwiliadau a chyfrifoldebau'r staff. Mae'r Tîm Dadebru yn cwblhau archwiliadau ym mhob rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran archwilio trolïau. Os nad yw'r ardal yn cydymffurfio, cynhelir archwiliadau yn amlach.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom archwilio'r trolïau dadebru a oedd yn cael eu defnyddio yn yr adran. Gwelsom fod gan y trolïau ddigon o feddyginiaeth a chyfarpar i ymdrin ag argyfwng. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y trolïau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.



Yr adran electroneg feddygol sy'n gyfrifol am archwilio a chynnal a chadw'r cyfarpar yn yr Adran Achosion Brys. Gwelsom fod yr holl wiriadau diogelwch yn gyfredol.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y trolïau dadebru eu harchwilio'n rheolaidd yn unol â'r polisi.

### Gofal effeithiol

#### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Argymhellwn y dylai'r bwrdd iechyd atgoffa pob aelod o'r staff o bwysigrwydd cynnal asesiadau o boen ac ailgynnal yr asesiadau hyn yn dilyn ymyriad neu analgesia.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

- Rhoi siartiau arsylwi arwyddion bywyd diwygiedig ar waith yn dilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth – gyda'r ffurflen monitro poen yn rhan o'r asesiad cyffredinol o'r claf

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom dystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol da rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i gefnogi'r staff wrth eu gwaith.

Gwelsom fod cyffuriau lleddfu poen yn cael eu rhoi i'r cleifion yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu mewn dogfennaeth asesu ffurfiol a phrin oedd y dystiolaeth bod effeithiolrwydd y cyffuriau lleddfu poen yn cael ei adolygu.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cleifion eu hasesu i weld a oes angen cyffuriau lleddfu poen arnynt ac y caiff effeithiolrwydd y cyffuriau lleddfu poen ei adolygu a'i ddogfennu.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ar waith ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion a chadw cyfrinachedd. Fodd bynnag, ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, gwelsom fod troli a oedd yn cynnwys nodiadau gofal cleifion wedi'i adael ar agor heb unrhyw staff yn bresennol yn y brif Adran Achosion Brys. At hynny, gwelsom fod sgrin cyfrifiadur wedi cael ei gadael heb ei chloi heb unrhyw staff yn bresennol yn ardal bediatrig yr adran.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod troliâu sy'n cynnwys nodiadau gofal cleifion wedi'u cloi pan nad oes unrhyw staff yn bresennol
- Bod sgriniau cyfrifiaduron wedi'u cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

## Cadw cofnodion

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Mae angen i'r bwrdd iechyd atgoffa'r staff i gynnwys amseroedd mewnbynnau i gofnodion cleifion a chyflwyno strategaethau priodol i fonitro'r agwedd hon ar gadw cofnodion gan sicrhau arfer cadarn a chynhwysfawr.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

- Cwblhau'r archwiliad o ddogfennaeth (yn fisol) er mwyn sefydlu llinell sylfaen gyda chyfathrebu a gwelliant – a fydd yn parhau nes i'r safon wella ac wedyn yn cael ei gynnal bob 6 mis

Yn ystod yr arolygiad hwn, edrychwyd ar sampl o nodiadau gofal y cleifion a gwelsom eu bod wedi cael eu cynnal yn dda ar y cyfan a'u bod yn gymharol hawdd eu deall. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, gwelsom dystiolaeth o anghysondebau o ran y ffordd roedd rhai dogfennau gofal yn cael eu cwblhau, megis siartiau hylif a maeth, asesiadau o boen, cwympiadau ac asesiadau risg ar gyfer manau pwyso.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Yn gyffredinol, gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr adran, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwyr yr adran.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

Roedd uwch-nyrsys a rheolwyr eraill yn gweithio'n ddiwyd er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion a oedd yn dod i'r adran yn cael gofal a thriniaeth ddiogel ac effeithiol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythurau llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o'r staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd staff allweddol o'r adran ac uwch-reolwyr yr ysbyty yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y dydd i drafod y sefyllfa bresennol yn yr adran gyda'r nod o unioni unrhyw broblemau a oedd yn datblygu cyn iddynt waethygu. Nododd y staff fod y broses hon yn effeithiol o ran rheoli'r pwysau ar yr adran a'r llif cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod cyfathrebu da yn yr adran a bod prosesau da, anffurfiol ar waith i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd.

### Staff ac adnoddau

## Y Gweithlu

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu cynllun gweithredu i AGIC, sy'n gwerthuso'n glir sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â phrinder staff yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o staff yn cael arfarniadau blynyddol amserol.

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 02 Chwefror 2018:

- Mae swyddi gwag ar gyfer yr hyn sy'n cyfateb i 7.2 nyrs gofrestredig amser llawn ac eraill sydd ar absenoldeb mamolaeth
- Ymgyrch hysbysebu bwrpasol Maelor Wrecsam i recriwtio a chadw staff – y safle aciwt. Mae'r strategaeth cadw staff yn cynnwys y canlynol:
  - Rhaglen diwtoriaeth
  - Hyfforddiant asiantaeth ar ddulliau mewnwythiennol a phympiau i nyrsys cofrestredig asiantaeth (a fydd yn cynnwys y Dechneg Dim Cyffwrdd Aseptig)
  - Cynnal cyfweiliadau ag israddedigion ddwywaith y flwyddyn i fodloni ceisiadau penodol ar gyfer penodiadau i'r Adran Achosion Brys
  - Cynnal cyfarfodydd grŵp gorchwyl a gorffen bob pythefnos
  - Ail-lunio a chwblhau'r adolygiad sefydliadol er mwyn penodi rolau penodol gyda hysbyseb wedi'i pharatoi ar gyfer Ymarferydd Nyrsio Brys yn yr Adran Achosion Brys
- Ar hyn o bryd, yn yr Adran Achosion Brys, y gyfradd gydymffurfio â PADR (Adolygiad o Berfformiad a Datblygiad) yw 67%
- Rhoi rhaglen ar waith i gwblhau PADR.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod digon o staff ar ddyletswydd ym mhob rhan o'r adran. Fodd bynnag, roedd yr adran yn dibynnu i ryw raddau ar staff asiantaeth i gyflenwi ar gyfer swyddi gwag a staff a oedd yn absennol.

Roedd gan y staff gymysgedd da o sgiliau, ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd digon o nyrsys plant cymwysedig ar gael i weithio pob sifft.

Dangosodd y ffigurau a gyflwynwyd fod 83% o'r staff a oedd yn gweithio yn yr Adran Achosion Brys a 98% o'r staff a oedd yn gweithio yn yr Uned Asesu Meddygol wedi cael adolygiadau o berfformiad a datblygiad/arfarniadau blynyddol yn ystod y 12 mis blaenorol.

Gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i'r staff er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith, ac i gasglu eu barn ar safon y gofal.

Derbyniwyd 11 o holiaduron wedi'u cwblhau gan amrywiaeth o aelodau o'r staff.

Nododd y rhan fwyaf o'r staff yn yr holiaduron eu bod wedi ymgymryd â dysgu a datblygu mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, diogelwch tân a rheoli heintiau tra roeddent yn yr ysbyty, yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant ar gymorth cynnal bywyd uwch/bywyd pediatrig ac Amddifadu o Ryddid yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif ohonynt a ddywedodd eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddementia a llonyddu a phreifatwydd a pharch yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur fod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu y maent yn ei gwblhau yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt ei fod yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol, ac yn sicrhau eu bod yn darparu profiad gwell i gleifion.

Dywedodd bron pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella'r gofal a roddir i'r cleifion, er mai lleiafrif a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a wnaed a oedd yn effeithio arnynt.

Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr eu bod yn gallu bodloni'r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith fel arfer ac nad oes ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau na chyfarpar yn aml i wneud eu gwaith. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*“Nid oes hanner digon o gyfarpar, sy'n arwain at ofal gwael”*

*“Mae diffyg cyfleusterau, mae angen rhagor o gyfarpar arnom.”*

Roedd rhai aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn nad oedd digon o staff yn y sefydliad i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*“Nid oes gan yr Adran Achosion Brys ddigon o staff nac adnoddau nyrsio, meddygol na fferyllol. Rwy'n cydymdeimlo â'm cydweithwyr yn yr Adran Achosion Brys na allant ddarparu'r safon gofal yr hoffent ei darparu i gleifion nac i'r safon sydd ei hangen ar y claf. Fodd bynnag, maent yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae oedi yn gyffredin o'r broses glercio, i ofal cleifion i brosesau rhoi meddyginiaethau.”*

*“Mae'r amgylchedd presennol yn yr Adran Achosion Brys yn ymylu ar fod yn anniogel. Er bod pob claf unigol yn cael ei gadw mor ddiogel â phosibl, mae'r nifer fawr o gleifion sy'n bresennol yn yr adran, gyda'i gilydd, yn arwain at amgylchedd risg uchel.”*

Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal y gallant ei roi i'r cleifion. Serch hynny, dim ond hanner a oedd yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal a bod annibyniaeth y cleifion yn cael ei hyrwyddo.

Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y sefydliad yn annog gwaith tîm. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif a deimlai fod y sefydliad yn gefnogol, a bod y gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â'r cleifion yn cael eu grymuso i leisio eu barn a gweithredu pan fydd materion yn codi.

Dywedodd tua hanner y staff fod diwylliant o fod yn agored a dysgu yn y bwrdd iechyd sy'n helpu'r staff i nodi problemau a'u datrys. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y wybodaeth gywir ar gael i'r bwrdd iechyd er mwyn iddo fonitro ansawdd y gofal ar gyfer pob ymyriad clinigol.

Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno mai gofalu am y cleifion yw blaenoriaeth bennaf y sefydliad ac roedd bron pob un yn cytuno bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion. Roedd tua hanner y staff yn cytuno y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe byddai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*“Pan dw i wedi codi pryderon ... mae'r uwch-reolwyr yn barod iawn i wrando ac rydym wedi gwella ... o ganlyniad. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd.”*

*“...mae'r bobl sy'n darparu gwasanaeth rheng flaen yn wych ac yn ymroddedig, ond maent wedi cyrraedd pen eu tennyn ac wedi blino'n lân.”*

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod adborth ar brofiad y claf, er enghraifft arolygon cleifion, yn cael ei gasglu. Dywedodd tua hanner ohonynt wrthym eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion, ac roedd y rhan fwyaf o'r farn bod yr adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu cyfarwyddiaeth neu adran.

Holwyd y staff yn yr holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*“Mae ein tîm rheoli yn gymwynasgar iawn ac yn hawdd iawn mynd ato. Mae'n gwrando ac yn deall os oes unrhyw beth y mae angen mynd i'r afael ag ef.”*

Roedd y mwyafrif o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr yn eu hannog i weithio fel tîm, bod modd dibynnu ar eu rheolwr i'w helpu i gyflawni tasg anodd yn y gwaith a bod eu rheolwr yn rhoi adborth ac yn gefnogol mewn argyfwng personol. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*“Ymdriniwyd ag unrhyw bryderon a godwyd gennyf mewn modd amserol.”*

*“Mae fy rheolwr llinell yn wych - mae'n frwdfrydig ac yn gefnogol iawn ac yn deall y pwysau yn yr Adran Achosion Brys. Yn fy rôl, gallwn fod yn yr Adran Achosion Brys ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos er mwyn sicrhau bod pawb yn cael gofal fferyllol o'r un safon. Fodd bynnag, mae wedi fy nysgu i wneud fy ngorau yn ystod yr amser....”*

Roedd mwyafrif o'r staff a ymatebodd o'r farn bod eu rheolwyr yn gofyn eu barn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n effeithio ar eu gwaith, ac y gellir dibynnu arnynt i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad. Dywedodd tua hanner wrthym fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff, a dywedodd y mwyafrif fod yr uwch-reolwyr yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig yn rheolaidd, gyda

hanner yn dweud bod y rheolwyr yn gweithredu ar adborth gan staff. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*“Yn fy marn i, mae gennym uwch-dîm gwych o reolwyr sydd bob amser yn gefnogol ac yn gymwynasgar iawn.”*

Dyweddodd y mwyafrif o'r staff fod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion a'u bod yn gweld canllawiau, rhybuddion diogelwch cleifion a rhybuddion dyfeisiau meddygol newydd, a'u bod yn eu cefnogi er mwyn sicrhau y caiff y rhain eu rhoi ar waith.

Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant. Fodd bynnag, roedd traean yn anghytuno bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant a'u bod yn cael cynnig cymorth llawn mewn sefyllfaoedd heriol. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn ymwybodol o'r cymorth lechyd Galwedigaethol a oedd ar gael iddynt, a bod eu patrwm gwaith yn taro cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Dyweddodd tua hanner y staff wrthym yn yr holiaduron eu bod wedi gweld camgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi niweidio staff, a dywedodd tua dau o bob tri eu bod wedi gweld camgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau a allai fod wedi niweidio cleifion. Roedd pob aelod o'r staff a oedd wedi gweld camgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad wedi rhoi gwybod amdano. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*“Diogelwch meddyginiaeth yw prif ffocws fy rôl. Rwy'n cofnodi pob camgymeriad difrifol a phob camgymeriad sy'n peryglu bywyd ar Datix ac yn dogfennu'r holl dderbyniadau sy'n ymwneud â meddyginiaeth er mwyn iddynt gael eu hadolygu ... a gwella gofal cleifion – yn enwedig wrth y rhyngwyneb gofal megis yr Adran Achosion Brys. Rwy'n hyderus yn mynd at staff nyrsio a staff meddygol os bydda i'n eu gweld yn gwneud camgymeriad sy'n ymwneud â meddyginiaethau ac yn eu haddysgu.”*

Dyweddodd pob aelod o'r staff eu bod yn ymwybodol o'r system cofnodi digwyddiadau a dywedodd y mwyafrif ohonynt eu bod wedi cael digon o hyfforddiant ar y system honno.

Dyweddodd traean o'r staff wrthym fod y sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad, yn deg ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi



gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau.

Roedd y mwyafrif o'r staff o'r farn y byddai'r sefydliad yn ymdrin ag unrhyw gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn gyfrinachol a phrin oedd yr aelodau o'r staff a deimlai y byddai'r sefydliad yn gweld bai ar y bobl hynny sy'n gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath nac yn eu cosbi. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai camau yn cael eu cymryd o ran digwyddiadau a nodwyd.

Roedd tua hanner y staff yn cytuno eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau yn y sefydliad, a dywedodd tua hanner eu bod yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*“...mae'r sefyllfa yn yr Adran Achosion Brys yn llai tryloyw a dw i ddim yn ymwybodol bod staff yn cael eu hysbysu am gamgymeriadau diweddar/camgymeriadau a fu bron â digwydd yn ddiweddar ac ati a sut i'w hatal.”*

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am arfer clinigol anniogel ac y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon o'r fath.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn bod eu sefydliad yn gweithredu'n deg mewn perthynas â datblygiad gyrfa neu ddyrchafu, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabled neu oedran.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Parhau i fonitro lefelau staffio a chymysgedd sgiliau'r staff yn yr adran
- Sicrhau bod hyfforddiant ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymwyseddau cywir
- Myfyrio ar rai o'r ymatebion llai ffafriol gan y staff mewn ymateb i rai o'r cwestiynau yn adroddiad AGIC, fel y nodwyd yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| <b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>  | <b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b> | <b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b> | <b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b> |
|--|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. |   |   |   |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Gwasanaeth:** Adran Achosion Brys Ysbyty Maelor Wrecsam

**Dyddiad arolygu:** 06 a 07 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith  | Safon               | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen                  |
|--|---------------------|---|--|---------------------------|
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod y cleifion sy'n aros ar droliâu yn y coridor yn cael gofal priodol ac amserol. | 2.1, 3.1, 3.5 a 5.1 | Asesiad risg ffurfiol i'w gwblhau gyda mesurau lliniaru a rheolaethau clir ar gyfer defnyddio'r coridor i bob claf. Bydd yr asesiad risg ffurfiol yn rhan o fframwaith uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (sgôr risg debygol uwchlaw 16 a bydd yn rhan o'r gofrestr risg gorfforaethol). | Pennaeth Nyrsio - Gofal Brys                             | 30 Awst 2019 (Ar unwaith) |
|  |                     | Camau unioni uniongyrchol y timau clinigol i gynnwys cleifion sy'n cael eu nyrsio yn y coridor fel rhan o sgrym diogelwch yr Adran Achosion Brys a dogfennu pob cam a gymerir. Y Fetron a'r Penaethiaid Nyrsio i  | Arweinydd y Sifft a'r Prif Feddyg Ymgynghorol – yr Adran | 12 Awst 2019 (Ar unwaith) |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen  |
|---------------------------------------|-------|---|--|---|
|                                       |       | <p>gynnal archwiliad dyddiol ar hap er mwyn cael sicrwydd o ran cydymffurfiaeth.</p> <p>Mae'r arfer wedi'i atgyfnerthu gyda'r holl staff nyrsio ynghylch y defnydd o ddogfen SHINE ar adeg yr asesiad cychwynnol.</p> <p>Bydd pob gweithiwr asiantaeth yn mynd drwy broses sefydlu effeithiol ar gyfer yr Adran Achosion Brys a darperir goruchwyliaeth glinigol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisiau.</p> <p>Bydd y staff clinigol yn cwblhau'r Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) yn unol â'r polisi ac yn uwchgyfeirio achosion at yr Arweinydd Sifft a'r meddyg â chyfrifoldeb yn ôl yr angen.</p> <p>Pe bai cyflwr clinigol y claf yn gwaethygu, cyfarwyddwyd y staff i ailbrysbennu'r claf a rhoi gwybod i'r</p> | <p>Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys</p> <p>Arweinydd y Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd y Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd y Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> | <p>12 Awst 2019 (Ar unwaith)</p> <p>12 Awst 2019 (Ar unwaith)</p> <p>12 Awst 2019 (Ar unwaith)</p> <p>12 Awst 2019 (Ar unwaith)</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol  | Amserlen  |
|---------------------------------------|-------|--|---|---|
|                                       |       | <p>uwch-glinigydd fel yr awgrymir gan y categori brysbennu.</p> <p>Y cleifion i gael llythyr o ymddiheuriad wrth aros yng nghoridor yr Adran Achosion Brys gan y Rheolwr-Gyfarwyddwr yn ystod cyfnodau pan fo'r Adran Achosion Brys yn orlawn.</p> <p>Pwysleisir y defnydd o'r ystafell amlbwrpas i bob aelodau o'r staff er mwyn darparu gofal priodol ag urddas bob amser i gleifion yn y coridor.</p> <p>Datblygu'r Weithdrefn Gweithredu Safonol a'i rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod proses uwchgyfeirio glir i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau y darperir gofal priodol ac amserol i gleifion yn y coridor. Câi'r broses hon ei chefnogi ymhellach gan bolisi uwchgyfeirio mewnol yr Adran Achosion Brys.</p> | <p>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd Sifft – Gofal Brys.</p> <p>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys</p> | <p>30 Awst 2019<br/>(Ar unwaith)</p> <p>12 Awst 2019<br/>(Ar unwaith)</p> <p>30 Awst 2019</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol  | Amserlen                             |
|---------------------------------------|-------|---|---|--------------------------------------|
|                                       |       | <p>Pwysleisio Polisi Uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd er mwyn uwchgyfeirio cleifion yn y coridor at arweinydd Tîm Rheoli'r Ysbyty drwy gyfarfodydd gwelyau dyddiol er mwyn cael cymorth arbenigedd a chynnal diogelwch y cleifion.</p> | <p>Pennaeth<br/>Nyrsio – Gofal<br/>Brys<br/>Metron – yr<br/>Adran Achosion<br/>Brys</p>             | <p>12 Awst 2019<br/>(Ar unwaith)</p> |
|                                       |       | <p>Metron yr adran (yn ystod oriau gwaith) ac Arweinydd y Sifft (y tu allan i oriau) i sicrhau y cynigir cyfle i bob claf yn y coridor yn yr Adran Achosion Brys gwblhau'r arolwg o brofiad cleifion.</p>                         | <p>Metron – yr<br/>Adran Achosion<br/>Brys<br/>Arweinydd Sifft<br/>– yr Adran<br/>Achosion Brys</p> | <p>19 Awst 2019<br/>(Ar unwaith)</p> |
|                                       |       | <p>Caiff y cynllun gweithredu hwn ei fonitro yn y cyfarfod gofal heb ei drefnu wythnosol a bydd yr adran yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i fonitro'r cynllun gweithredu hwn yn lleol.</p>                                      | <p>Triwriaeth –<br/>Gofal Brys</p>  | <p>Medi 2019</p>                     |
|                                       |       | <p>Cynhelir archwiliad wythnosol er mwyn cael sicrwydd o ran cydymffurfiaeth ar gyfer y camau</p>   | <p>Metron – yr<br/>Adran Achosion<br/>Brys</p>  | <p>19 Awst 2019<br/>(Ar unwaith)</p> |



| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith  | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol  | Amserlen |
|--|-------|---|---|----------|
|  |       | gweithredu uchod a llywio gwelliannau pellach.  | Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys  |          |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod matresi lleddfu pwysau addas ar gael i'w defnyddio ar droliâu yn yr Adran Achosion Brys. | 2.2   | <p>Mae pwysigrwydd archwiliadau croen priodol (pan gaiff cleifion eu derbyn i'r ysbyty ac yn ôl yr angen) wedi'i bwysleisio i'r staff. Mae'r staff hefyd wedi'u hysbysu am bwysigrwydd atal briwiau pwysu a gofalu amdanynt yn unol â'r polisi i'r cleifion sy'n cael eu nyrsio ar fatresi troli'r Adran Achosion Brys. Mae hyn yn cynnwys y cleifion sy'n cael eu nyrsio yn y coridor.</p> <p>Pob aelod o'r staff i sicrhau bod sgôr Maelor yn cael ei chwblhau yn unol â'r polisi ac y cymerir camau yn unol â hynny. Rhag ofn y bydd cyflwr clinigol a chorfforol y claf yn gwaethygu ymhellach, atgoffwyd y staff o bwysigrwydd edrych ar sgôr Maelor unwaith eto a gweithredu yn unol â hynny.</p> | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> |          |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol  | Amserlen |
|---------------------------------------|-------|---|---|----------|
|                                       |       | <p>Gosodir pob claf yn yr adran ar y gwely proffil â matres aer priodol fel y nodir gan Sgôr Maelor.</p> <p>Adolygir y matres troli presennol yn yr Adran Achosion Brys a chysylltir â chwmni Huntleigh (sef y darparwr troliâu yn yr Adran Achosion Brys) er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r matresi troli ar gyfer ein cleifion yn unol â'i argymhellion.</p> <p>Cynhelir y perfformiad o ran archwilio matresi troli'r Adran Achosion Brys yn unol â'r polisi.</p> <p>Cynhelir archwiliadau o niwed ar hyn o bryd er mwyn adolygu niweidiau a gaffaelwyd yn yr ysbyty oherwydd amseroedd aros hir ar droliâu. Bydd Metron yr Adran Achosion Brys yn cyflwyno</p> | <p>Arweinydd Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> |          |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith  | Safon            | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol  | Amserlen                        |
|--|------------------|--|---|---------------------------------|
|  |                  | <p>canfyddiadau unrhyw adolygiadau o niwed i'r cyfarfod Briwiau Pwyso a Gaffaelwyd yn yr Ysbyty Lleol.</p> <p>Caiff y cynllun gweithredu hwn ei fonitro yn y cyfarfod gofal heb ei drefnu wythnosol a bydd yr adran yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i fonitro'r cynllun gweithredu hwn yn lleol.</p> <p>Cynhelir archwiliad wythnosol er mwyn cael sicrwydd o ran cydymffurfiaeth ar gyfer y camau gweithredu uchod a llywio dysgu a gwelliannau pellach.</p> | <p>Triwriaeth – Gofal Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> |                                 |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod y cleifion yn cael bandiau arddwrn adnabod cleifion ar gam cynnar o'u llwybr gofal yn yr Adran Achosion Brys.</p> | <p>2.1 a 3.1</p> | <p>Mae'r argraffyddion electronig bellach wedi'u gosod yn yr ardaloedd Brysbennu, Anafiadau Mawr a Dadebru. Maent bellach yn cael eu defnyddio i roi bandiau arddwrn adnabod cleifion argraffedig i gleifion ym mhob ardal.</p>  | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p>                                | <p>9 Awst 2019 (Ar unwaith)</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen   |
|---------------------------------------|-------|---|--|--|
|                                       |       | <p>Sicrhau y cynhelir yr archwiliad wythnosol er mwyn cael sicrwydd o ran cydymffurfiaeth â'r bandiau arddwrn adnabod cleifion.</p> <p>Caiff y cynllun gweithredu hwn ei fonitro yn y cyfarfod gofal heb ei drefnu wythnosol a bydd yr adran yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i fonitro'r cynllun gweithredu hwn yn lleol.</p> <p>Cynhelir archwiliad wythnosol er mwyn cael sicrwydd o ran cydymffurfiaeth ar gyfer y camau gweithredu uchod a llywio gwelliannau pellach.</p> | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Triwriaeth – Gofal Brys</p> <p>Metron – Gofal Brys</p> | <p>12 Awst 2019<br/>(Ar unwaith)</p> <p>Medi 2019</p> <p>12 Awst 2019<br/>(Ar unwaith)</p> |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Tudalen 44 o 64

**Enw (priflythrennau): Kate Clarke**

**Teitl swydd: Cyfarwyddwr Meddygol Gofal Eilaidd**

**Dyddiad: 13 Awst 2019**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Adran Achosion Brys Ysbyty Maelor Wrecsam

**Dyddiad arolygu:** 06 a 07 Awst 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon                             | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen   |
|--|-----------------------------------|---|--|--|
| <b>Ansawdd profiad y claf</b>  |                                   |   |  |  |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod Cynllun Pili Pala yn cael ei roi ar waith yn gyson yn yr adran. | 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd | Nyrs cyswllt dementia yr Adran Achosion Brys i ddarparu hyfforddi ac addysgu i bob aelod o'r staff.<br><br>Sicrhau y caiff cynllun Pili Pala ei roi ar waith drwy sgrymiau diogelwch yr adran.<br><br>Monitro cydymffurfiaeth a chodi ymwybyddiaeth drwy sgrymiau diogelwch dyddiol yr adran. | Metron – yr Adran Achosion Brys<br><br>Metron – yr Adran Achosion Brys<br><br>Arweinydd Sifft – yr Adran Achosion Brys | 28 Chwefror 2020<br><br>30 Tachwedd 2019<br><br>30 Tachwedd 2019 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amseroedd aros yn cael eu cyfleu'n gywir.                       | 4.2 Gwybodaeth i Gleifion         | Diweddarau amseroedd aros bob awr yn yr ardal aros ar y bwrdd gwyn dynodedig.   | Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth –   | 30 Tachwedd 2019   |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol  | Amserlen         |
|----------------------------|-------|--|---|------------------|
|                            |       | Defnyddio'r system llais fewnol i gyhoeddi'r amseroedd aros bob awr. | yr Adran Achosion Brys<br><br>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth – yr Adran Achosion Brys | 30 Tachwedd 2019 |
|                            |       | Monitro'r cam gweithredu uchod drwy hapwiriadau rheolaidd.           | Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth – yr Adran Achosion Brys                               | 30 Tachwedd 2019 |
|                            |       | Nodi'r dull o arddangos yr amseroedd aros yn electronig.             | Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth –  | 31 Rhagfyr 2019  |

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon                       | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen         |
|---|-----------------------------|---|--|------------------|
|   |                             |   | yr Adran Achosion Brys   |                  |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i gleifion drwy gyfrwng y Gymraeg.       |                             | Arddangos hysbysfyddau cleifion yn Gymraeg; ceir cymorth gyda hyn gan Swyddog y Gymraeg.  | Metron – yr Adran Achosion Brys  | 30 Tachwedd 2019 |
|   |                             | Cynnal dadansoddiad bwllch o siaradwyr Cymraeg yn yr Adran Achosion Brys  | Metron – yr Adran Achosion Brys<br>Metron – yr Adran Achosion Brys     | 31 Rhagfyr 2019  |
|   |                             | Hyrwyddo a rhoi'r cyfle i'r staff ddysgu'r Gymraeg.   |  | 31 Rhagfyr 2019  |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd annog y staff i beidio â defnyddio byrfoddau wrth siarad â'r cleifion ac ymwelwyr. | 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Atgoffir pob aelod o'r staff a'u hannog drwy sesiynau briffio diogelwch dyddiol i sicrhau na chaiff byrfoddau eu defnyddio wrth gyfathrebu â chleifion ac ymwelwyr. | Metron a Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth – yr Adran Achosion Brys | 30 Tachwedd 2019 |
|   |                             | Byddai'r cam gweithredu uchod yn cael ei fonitro drwy hapwiriadau dyddiol gan y metron a'i herio yn ôl yr angen.  |  | 31 Rhagfyr 2019  |



| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon                       | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen  |
|--|-----------------------------|---|--|---|
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro amseroedd aros a rhoi strategaethau eraill ar waith i wella llif cleifion drwy'r adran.</p> | <p>5.1 Mynediad amserol</p> | <p>Fel rhan o'n rhaglen gwella, Adeiladu Gofal Gwell, mae'r camau gweithredu canlynol wedi cael eu cymryd-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cynlluniau swyddi'r gweithlu meddygol presennol wrthi'n cael eu hadolygu er mwyn cysoni cymysgedd sgiliau gwell â'r galw.</li> <li>Mae achos busnes ar gyfer gweithlu meddygol ychwanegol yn aros i gael cymeradwyaeth weithredol.</li> <li>Adolygiad allanol a gynhelir ar gyfer gweithlu'r Adran Achosion Brys ym mis Hydref; yr adborth a roddir i gael ei gynnwys yn yr achos busnes diwygiedig.</li> </ul> | <p>Rheolwr<br/>Cyffredinol y<br/>Gyfarwyddiaeth –<br/>yr Adran<br/>Achosion Brys</p> <p>Rheolwr<br/>Gyfarwyddwr –<br/>Ysbyty Maelor<br/>Wrecsam</p> <p>Rheolwr<br/>Cyffredinol y<br/>Gyfarwyddiaeth –<br/>yr Adran<br/>Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Nyrsio<br/>– Gofal Brys</p> | <p>30<br/>Tachwedd 2019</p> <p>30 Tachwedd<br/>2019</p> <p>30 Tachwedd<br/>2019</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen  |
|----------------------------|-------|---|--|---|
|                            |       | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gweithlu Ymarferwyr Nyrsio Brys yn ymgymryd â modiwl hyfforddiant ar salwch i reoli mwy o gleifion drwy ffrydio Ymarferwyr Nyrsio Brys.</li> <li>Yr atgyfeiriadau uniongyrchol i arbenigol o'r maes brysbennu a'r maes Pediatreg.</li> <li>Cwblhawyd y treial o osod Meddygon Teulu yn y cam brysbennu a oedd yn dangos gwelliant mewn amseroedd aros ar gyfer mân anafiadau ac mae cynllun i feddygon teulu gyflenwi'n fwy cyson ar y cam brysbennu.</li> </ul> | <p>Rheolwr<br/>Cyffredinol y</p> <p>Rheolwr<br/>Cyffredinol y<br/>Gyfarwyddiaeth –<br/>yr Adran<br/>Achosion Brys</p> <p>Rheolwr<br/>Gyfarwyddwr –<br/>Ysbyty Maelor<br/>Wrecsam</p> | <p>30</p> <p>30 Tachwedd<br/>2019</p> <p>30 Tachwedd<br/>2019</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon   | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen                                       |
|---|---|---|--|--|
|   |   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd gwelliant i lif y cleifion drwy'r llawr brys, sy'n cynnwys yr Uned Gofal Dydd Frys, Aseiad Eiddilwch a'r Uned Arhosiad Byr.</li> </ul>  | Rheolwr<br>Cyffredinol y<br>Gyfarwyddiaeth –<br>Arbenigeddau<br>Meddygaeth | 4 Tachwedd<br>2019                             |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn.   | 6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth | Yr archwiliad misol o ddogfennaeth i gynnwys adolygiad o ddogfennaeth cynlluniau gofal i sicrhau dull wedi'i bersonoli.<br><br>Caiff camau gweithredu a chydymffurfiaeth eu monitro fel rhan o archwiliad metron yr Adran Achosion Brys. Dogfennaeth ategol wedi'i darparu. | Metron – yr Adran Achosion Brys<br><br>Metron – yr Adran Achosion Brys     | 4 Tachwedd<br>2019<br><br>4 Tachwedd<br>2019   |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau DoLS yn cael eu cynnal ar gleifion sydd â symptomau cyflyrau megis dementia, anaf i'r pen neu ddrysu'n gyffredinol, fel mater o drefn. | 6.2 Hawliau pobl                                  | Y Metronau Gofal Brys i fod ar y rhestr llofnodi i gynnal yr asesiadau o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.<br><br>Y tîm diogelu i gynnal sioeau teithiol yn yr Adran Achosion Brys gan ganolbwyntio ar drefniadau diogelu wrth amddifadu o                        | Metron – Gofal Brys<br><br>Tîm Diogelu                                     | 30 Tachwedd<br>2019<br><br>30 Tachwedd<br>2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon                                     | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol                | Amserlen         |
|--|---|---|---------------------------------|------------------|
|  |   | <p>ryddid yn ystod yr wythnos ymwybyddiaeth o ddiogelu.</p> <p>Hyfforddi ac addysgu'r uwch staff nyrsio (Band 7 a band 6-19 cyfwerth ag amser cyflawn) i asesu galluedd meddyliol wrth dderbyn cleifion fel sy'n ofynnol.</p> | Metron – yr Adran Achosion Brys | 31 Rhagfyr 2019  |
| <b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>  |   |   |                                 |                  |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell gawod yn yr Uned Asesu Meddygol yn cael ei hadnewyddu.  | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Sicrhau dyfynbris ystadau i adnewyddu'r gawod yn yr Uned Asesu Meddygol   | Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys    | 30 Tachwedd 2019 |
|  |   | Gofyn am waith adnewyddu gael ei gynnal   | Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys    | 31 Rhagfyr 2019  |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau na chaiff eitemau o fwyd eu storio gyda chyfarpar clinigol yn yr Uned Asesu Meddygol na'r Uned Penderfyniadau Clinigol. |   | Storiwyd eitemau o fwyd yn gywir ar unwaith yn unol â'r polisi ac mae'r staff cadw tŷ wedi cael eu hatgoffa i beidio â storio eitemau o fwyd gyda chyfarpar clinigol.   | Metron – yr Adran Achosion Brys | Wedi'i gwblhau   |

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon                                       | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol  | Amserlen   |
|---|---|---|---|--|
|   |   | Mae'r cam gweithredu uchod yn cael ei fonitro drwy archwiliad wythnosol gan y staff cadw tŷ.  |   | 30 Tachwedd 2019                                   |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau risg ar gyfer manau pwyso eu cynnal fel mater o drefn a bod matresi lleddfu pwysau addas ar gael i'w defnyddio ar droliâu. | 2.2 Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd | <p>Mae pwysigrwydd archwiliadau croen priodol (pan gaiff cleifion eu derbyn i'r ysbyty ac yn ôl yr angen) wedi'i bwysleisio i'r staff. Mae'r staff hefyd wedi'u hysbysu am bwysigrwydd atal briwiau pwyso a gofalu amdanynt yn unol â'r polisi ar gyfer cleifion sy'n cael eu nyrsio ar fatresi trolï'r Adran Achosion Brys.</p> <p>Pob aelod o'r staff i sicrhau bod sgôr Maelor yn cael ei chwblhau yn unol â'r polisi ac y cymerir camau yn unol â hynny. Rhag ofn y bydd cyflwr clinigol a chorfforol y claf yn gwaethygu ymhellach, atgoffwyd y staff o bwysigrwydd edrych ar sgôr Maelor unwaith eto a gweithredu yn unol â hynny. Dogfennaeth ategol wedi'i darparu.</p> | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> | <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon                      | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol   | Amserlen  |
|--|----------------------------|--|--|---|
|  |                            | <p>Gosodir pob claf yn yr adran ar y gwely proffil â matres aer priodol fel y nodir gan Sgôr Maelor.</p> <p>Cynhelir y perfformiad o ran archwilio matresi trolï'r Adran Achosion Brys yn unol â'r polisi. Dogfennaeth ategol wedi'i darparu.</p> <p>Caiff y camau gweithredu uchod eu monitro fel rhan o archwiliad metron yr Adran Achosion Brys.</p> <p>Sicreir y dyfynbris ar gyfer y matresi hybrid i'r trolïau er mwyn cael cymorth ariannol gan y Bwrdd Iechyd.</p> | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys</p> | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Parhaus</p> <p>31 Rhagfyr 2019</p> |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cynnal yn amserol.</p> | <p>2.3 Atal Cwympiadau</p> | <p>Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa i sicrhau bod yr asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cwblhau yn unol â'r polisi.</p>  | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p>                                     | <p>30 Tachwedd 2019</p>                                     |

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon                      | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen   |
|---|----------------------------|---|--|--|
|   |                            | <p>Ymgorffori dogfen SHINE i sicrhau bod gan y staff amserlen benodol i'w gorffen. Dogfennaeth ategol wedi'i darparu.</p> <p>Caiff y cam gweithredu uchod ei fonitro fel rhan o archwiliad metron yr Adran Achosion Brys.</p> | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p>  | <p>Cwblhawyd</p> <p>Parhaus</p>  |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion bwyta ac yfed cleifion eu hasesu'n gyson ac y caiff siartiau monitro maeth a hydradu eu cwblhau fel sy'n ofynnol.</p> | <p>2.5 Maeth a Hydradu</p> | <p>Atgoffir pob aelod o'r staff i sicrhau y caiff statws y claf o ran maeth ei asesu a'i fonitro yn ôl yr angen.</p> <p>Cefnogi a hyfforddi staff y groes goch i gynnal y siart cymeriant/gwarediad a/neu'r siart bwyd.</p>   | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> | <p>30 Tachwedd 2019</p> <p>30 Tachwedd 2019</p> <p>31 Rhagfyr 2019</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon                      | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol  | Amserlen  |
|--|----------------------------|---|---|---|
|  |                            | Caiff y cam gweithredu uchod ei fonitro fel rhan o archwiliad metron yr Adran Achosion Brys.  |   |   |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyffuriau a reolir eu gwirio'n ddyddiol.  | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau | <p>Ailadrodd cyfrifoldeb yr uwch-nyrs i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau meddyginiaethau, gan gynnwys y cyffuriau a reolir, yn unol â'r polisi. Dogfennaeth ategol wedi'i darparu.</p> <p>Sicrhau y caiff staff dynodedig eu neulltio i wirio Cyffuriau a Reolir yn ddyddiol i sicrhau y ceir person cyfrifol amlwg.</p> <p>Caiff y cam gweithredu uchod ei fonitro drwy archwiliad wythnosol y metron er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lwyr.</p> | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> | <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>30 Tachwedd 2019</p> |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn llofnodi cofrestrau cyffuriau a reolir ar adeg gwirio a/neu roi meddyginiaeth. |                            | Mae pob aelod o'r staff wedi cael eu hatgoffa i sicrhau bod y cofrestrau cyffuriau a reolir yn cael eu llofnodi yn unol â'r polisi.   | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron a Fferyllydd – yr</p>  | 30 Tachwedd 2019  |



| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon                                | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol                    | Amserlen         |
|---|--------------------------------------|---|-------------------------------------|------------------|
|   |                                      | Caiff y cam gweithredu uchod ei fonitro drwy archwiliad wythnosol y metron a bydd Fferyllydd yr adran yn darparu archwiliad unigol.                             | Adran Achosion Brys                 | 31 Rhagfyr 2019  |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mai dim ond pan gaiff ei ragnodi'r ffurfiol y rhoddir ocsigen i gleifion.      |                                      | Ysgrifennwyd at bob aelod o'r staff (meddygol a nyrsio) yn ffurfiol er mwyn sicrhau bod yr ocsigen yn cael ei ragnodi cyn ei roi ac eithrio mewn achosion brys. | Triwriaeth – yr Adran Achosion Brys | 30 Tachwedd 2019 |
|   |                                      | Rhagnodi ocsigen ar y cyfle cyntaf os caiff ei roi mewn achosion brys.  | Triwriaeth – yr Adran Achosion Brys | 30 Tachwedd 2019 |
|   |                                      | Caiff y camau gweithredu uchod eu monitro drwy archwiliad misol o ocsigen.  | Metron – yr Adran Achosion Brys     | 31 Rhagfyr 2019  |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drws yr ardal bediatrig wedi'i gloi pan nad oes unrhyw staff yn bresennol. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion | Atgoffir pob aelod o'r staff i gloi drysau'r ardal bediatrig pan nad oes neb yn bresennol.  | Metron – yr Adran Achosion Brys     | 30 Tachwedd 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon   | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol  | Amserlen   |
|--|---|---|---|--|
|  | sy'n agored i niwed                                 | <p>Arweinwyr Sifft i sicrhau bod staff yn bresennol pan fydd cleifion yn yr ardal bediatrig.</p> <p>Caiff y cam gweithredu uchod ei fonitro drwy hapwiriadau'r metron a sgrym diogelwch yr adran bob 2 awr. Dogfennaeth ategol wedi'i darparu.</p>  | <p>Arweinydd Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron ac Arweinydd y Sifft – yr Adran Achosion Brys</p>                   | <p>30 Tachwedd 2019</p> <p>30 Tachwedd 2019</p>                        |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y trolïau dadebru eu harchwilio'n rheolaidd yn unol â'r polisi. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | <p>Mae'n rhaid i negeseuon at bob uwch-nyrs ategu'r safon y caiff y trolïau dadebru eu harchwilio yn unol â'r polisi.</p> <p>Sicrhau y caiff staff dynodedig eu dyrannu i wirio yn ddyddiol i sicrhau y ceir person cyfrifol amlwg.</p> <p>Caiff y cam gweithredu uchod ei fonitro drwy archwiliad wythnosol y metron er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lwyr.</p> | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinydd Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> | <p>30 Tachwedd 2019</p> <p>30 Tachwedd 2019</p> <p>31 Rhagfyr 2019</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon  | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen   |
|--|--|---|--|--|
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cleifion eu hasesu i weld a oes angen cyffuriau lleddfu poen arnynt ac y caiff effeithiolrwydd y cyffuriau lleddfu poen ei adolygu a'i ddogfennu.</p>  | <p>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>             | <p>Atgoffir nyrsys brysbennu yr adran am y safon y caiff pob claf ei asesu ar gyfer poen ar adeg y brysbennu.</p> <p>Neilltuo gweithiwr Gofal Iechyd Llesiant i ardal aros y cleifion i sicrhau y caiff effeithiolrwydd lleddfu poen ei asesu a'i ddogfennu, ac uwchgyfeirio pryderon at y nyrs gofrestredig.</p> <p>Caiff y camau gweithredu uchod eu monitro drwy archwiliad wythnosol Metron yr Adran Achosion Brys.</p> | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Arweinwyr Sifft – yr Adran Achosion Brys</p> | <p>30 Tachwedd 2019</p> <p>30 Tachwedd 2019</p> <p>31 Rhagfyr 2019</p> |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trolïau sy'n cynnwys nodiadau gofal cleifion wedi'u cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.</p> <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgriniau cyfrifiaduron wedi'u cloi pan nad oes unrhyw staff yn bresennol.</p> | <p>3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> | <p>Cyfathrebu â phob aelod o'r staff gan ailadrodd safonau llywodraethu gwybodaeth.</p>   | <p>Metron a Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth – yr Adran Achosion Brys</p>          | <p>30 Tachwedd 2019</p> <p>31 Rhagfyr 2019</p>                         |

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon                 | Cam gweithredu'r gwasanaeth   | Swyddog cyfrifol   | Amserlen                |
|---|-----------------------|---|--|-------------------------|
|   |                       | <p>Caiff y cam gweithredu uchod ei fonitro drwy hapwiriadau gan yr uwch-reolwyr.</p> <p>Y Pennaeth Nyrsio i archwilio'r opsiynau amgen i storio'r nodiadau achos y tu allan i ardaloedd cyhoeddus ac ardaloedd y cleifion.</p>  | <p>Metron a Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys</p> | <p>31 Rhagfyr 2019</p>  |
| <b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>  |                       |   |  |                         |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro lefelau staffio a chymysgedd sgiliau'r staff yn yr adran</p> | <p>7.1 Y Gweithlu</p> | <p>Adolygu rôl yr Ymarferydd Cynorthwyol a gaiff ei gyflwyno a'i recriwtio.</p> <p>Sicrhau bod yr e-restr ar gyfer yr Adran Achosion Brys wedi cael ei chwblhau yn unol â'r polisi ac y gofynnir am y gweithlu dros dro yn ôl yr angen.</p> <p>Yr uwch dîm nyrsio i adolygu'r lefelau staffio dyddiol a'r cymysgedd sgiliau.</p> <p>Cynnal gweithgarwch recriwtio parhaus er mwyn recriwtio nyrsys cofrestredig i sicrhau na ddibynnir ar y gweithlu dros dro yn ormodol.</p> | <p>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys</p>  | <p>29 Tachwedd 2019</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella   | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol   | Amserlen                |
|--|-------|--|--|-------------------------|
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hyfforddiant ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymwyseddau cywir.</p>   |       | <p>Cyfathrebu â phob aelod o'r staff i ailadrodd yr angen i gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Caiff y cam gweithredu uchod ei fonitro drwy Gofnodion Staff Electronig yn wythnosol.</p> <p>Monitro cydymffurfiaeth drwy gyfarfodydd 1:1 y Metron a'r Pennaeth Nyrsio ar gyfer hyfforddiant y gweithlu nyrsio.</p> <p>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth i fonitro cydymffurfiaeth ar gyfer staff meddygol a gweinyddol.</p> | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p> <p>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys</p> <p>Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth – yr Adran Achosion Brys</p> | <p>29 Tachwedd 2019</p> |
| <p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar rai o'r ymatebion llai ffafriol gan y staff mewn ymateb i rai o gwestiynau holiadur AGIC, fel y nodwyd yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</p> |       | <p>Roedd y staff o'r farn nad oes ganddynt ddeunyddiau, cyflenwad na chyfarpar digonol yn aml i wneud eu gwaith.</p>   | <p>Metron – yr Adran Achosion Brys</p>   | <p>Cwblhawyd</p>        |

| Yr hyn sydd angen ei wella  | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth  | Swyddog cyfrifol                    | Amserlen                |
|---|-------|--|-------------------------------------|-------------------------|
| <p>yn yr adroddiad hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.</p> |       | <ul style="list-style-type: none"> <li>Prynwyd 15 o standiau drip ar gyfer yr Adran Achosion Brys, cynhelir cyfarfodydd misol gyda'r llyfrgell offer i sicrhau bod digon o bympiau mewnwythiennol a phympiau trwytho ar gael yn yr adran. Mae'r cyflenwadau clinigol wedi cael eu harchebu'n rheolaidd ac yn cael eu cyflenwi'n ddyddiol.</li> </ul> <p>Roedd y staff yn teimlo nad ydynt yn cael gwybod bob tro am gamgymeriadau diweddar a chamgymeriadau a fu bron â digwydd a sut i'w hatal rhag digwydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Caiff y bwrdd Datix ei ddiweddarau'n rheolaidd mewn perthynas â'r themâu hyn. Caiff cynhadledd diogelwch Gofal Brys ei lansio i sicrhau bod y staff yn cael gwybod am y camgymeriadau a fu bron â digwydd a'r mesurau ataliol.</li> </ul> | <p>Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys</p> | <p>29 Tachwedd 2019</p> |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau):** **Jasleen Kaur**

**Swydd:** **Pennaeth Nyrsio, Adran Achosion Brys, Wrecsam**

**Dyddiad:** **5 Tachwedd 2019**

